PAVO

Powys Association of Voluntary Organisations

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

# Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

---

# Briff Cais

## Helpu sefydliadau;
## Gwella bywydau pobl




**Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) yn gorff cyfryngol rhyngddibynnol a'i ddiben yw grymuso ac arfogi'r trydydd sector ym Mhowys, gan ei alluogi i gyflawni ei nodau a'i amcanion yn effeithiol, a chynrychioli ac hwyluso ymgysylltiad y trydydd sector ym mhob agwedd o'r amgylchedd cynllunio strategol.**

# Cefndir

**Ym 1974 sefydlwyd Cyngor Gwledig Powys o dri Chyngor Cymuned Gwledig annibynnol ym Maldwyn, Maesyfed a Brycheiniog. Newidiodd Cyngor Gwledig Powys ei enw i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys ym 1994.**

**Trodd PAVO yn Gwmni Cyfyngedig trwy Warant ac yn Elusen Gofrestredig ar y 1af o Ebrill 1996. Ei Rif Elusennol Gofrestredig yw: 1069557, a'r rhif Cwmni Cyfyngedig trwy Warant yw: 3522144. Y Swyddfa Gofrestredig yw: 30 Ystrad Ddiwydiannol Heol y Ddôl, Llandrindod, Powys LD1 6DF.**

**Mae PAVO yn un o 19 o Gynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol yng Nghymru. Mae aelodaeth yn agored i bob mudiad gwirfoddol a grŵp cymunedol ym Mhowys. Mae gan PAVO Fwrdd Cyfarwyddwyr sy'n cael ei ethol gan yr Aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gall y Bwrdd cynnwys hyd at 15 o aelodau. Cyfloga PAVO 12 o staff llawn amser a 33 o staff rhan amser, o fewn y dwy prif swyddfa sef Y Denewydd a Llandrindod.**

# Y Sector Gwirfoddol ym Mhowys

**Cyfranna'r Sector Gwirfoddol ym Mhowys at ystod eang o weithgareddau cymunedol ym Mhowys. Mae'n bresenoldeb amrywiol a bywiog yn y Sir, ac yn cynnwys ystod eang o bobl, mudiadau a chymunedau. Mae'n annibynnol o'r wladwriaeth, ac yn bodoli er budd y cyhoedd yn hytrach nag ar gyfer budd ariannol preifat. Mae mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunan-gymorth, sefydliadau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a mudiadau crefyddol yn rhan o'r sector.**




**Darpara'r sector gwirfoddol Powys wasanaethau i bobl yn y Sir sy'n cyfrannu at fywyd cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, ac at iechyd a lles eu cymunedau. Cyflenwa'r gwasanaethau hyn at rai a ddarperir gan gyrff cyhoeddus a chyfranna at wella gwasanaethau cyhoeddus megis iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau i blant, gwasanaethau i bobl ifanc, tai, addysg a hyfforddiant, mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, gwasanaethau ailgylchu gwastraff, adfywio cymunedau, cludiant a chamddefnyddio sylweddau.**

# Ein Gwerthoedd 'CHEER-ful'

| | | |
|---|---|---|
| C | ollabaration | -Cydweithio |
| H | onesty | -Gonestrwydd |
| E | xcellence | -Rhagoriaeth |
| E | quality & Diversity | -Cydraddoldeb ac amrywiaeth |
| R | espect | -Parch |



Click here

I weld Cynllun Strategol PAVO 2022 - 2027

I weld Strwythur Llywodraethu PAVO

Click here



# Pwrpas Strategol PAVO

Mae PAVO yn GATALYST ar gyfer gweithredu gwirfoddol

Mae PAVO yn mynegi LLAIS dilys ar gyfer Cymunedau a Thrydydd Sector Powys

Mae PAVO yn ganolbwynt gwybodaeth hanfodol

Mae PAVO yn cael ei lywodraethu a'i reoli'n effeithiol

**MAE AELODAETH AM DDIM AC YN AGORED I UNRHYW SEFYDLIAD TRYDYDD SECTOR YM MHOWYS.**

> "Darpara PAVO wasanaethau hanfodol i gefnogi sefydliadau trydydd sector a gwella bywydau pobl.
> Byddwn bob amser yn ystyriol ac yn trin pobl â charedigrwydd a thosturi."

# Disgrifiad o'r rôl: Ymddiriedolwr (Cyfarwyddwr) Cymdeithas Mudiad Gwirfoddol Powys

## Rolau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwr/Cyfarwyddwr yw:

- Sicrhau bod PAVO yn cydymffurfio â’i Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, y gyfraith elusennau, y gyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill.
- Sicrhau bod PAVO yn dilyn ei amcanion fel y'u diffinnir yn ei Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu
- Sicrhau bod PAVO yn defnyddio ei hadnoddau yn unol â'i hamcanion yn unig
- Cyfrannu’n weithredol at rôl Bwrdd y Cyfarwyddwyr wrth roi cyfeiriad strategol cadarn i PAVO, gosod polisi cyffredinol, diffinio nodau, gosod targedau a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt.
- Gweithredu fel Ymddiriedolwr Elusen a Chyfarwyddwr Cwmni er lles gorau PAVO, nid fel cynrychiolydd sefydliad sy’n aelod
- Rhannu cyfrifoldeb am bob penderfyniad a wneir gan y Bwrdd
- Diogelu enw da a gwerthoedd PAVO
- Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol PAVO
- Sicrhau stiwardiaeth effeithiol o asedau PAVO
- Recriwtio, penodi a diswyddo'r Prif Weithredwr a phennu lefel ei dâl
- Nodi’r risgiau a threfniadau mawr a monitro risgiau o'r fath
- Gwrthdaro Buddiannau – mae’n ddyletswydd ar ymddiriedolwr i gadw at y polisi ynghylch gwrthdaro buddiannau

---

Yn ogystal â’r dyletswyddau statudol uchod a dyletswyddau eraill, dylai pob Ymddiriedolwr ddefnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol sydd ganddo/ganddi i helpu Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau cadarn. Bydd hyn yn cynnwys craffu ar bapurau'r Bwrdd, arwain trafodaethau, canolbwyntio ar faterion allweddol, darparu cyngor ac arweiniad ar fentrau newydd a materion eraill y mae gan yr Ymddiriedolwr arbenigedd arbennig ynddynt. Gall fod yn ofynnol i Ymddiriedolwyr weithredu fel Hyrwyddwr ar gyfer eu maes arbenigedd.

---

## Rydym yn chwilio am ymddiriedolwyr sydd â’r rhinweddau canlynol:

- Ymrwymiad i PAVO
- Parodrwydd i roi'r amser a'r ymdrech angenrheidiol
- Gweledigaeth strategol
- Barn dda, annibynnol
- Y gallu i feddwl yn greadigol
- Parodrwydd i lefaru eu meddwl
- Dealltwriaeth a derbyniad o ddyletswyddau cyfreithiol, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau ymddiriedolwyr
- Y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm
- Parodrwydd i gadw at saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan

# Disgrifiad o'r rôl: Ymddiriedolwr (Cyfarwyddwr) Cymdeithas Mudiad Gwirfoddol Powys

**Dylai ymddiriedolwyr roi blaenoriaeth bob amser i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd ac anfon ymddiheuriadau os na allant fod yn bresennol. Dylent baratoi ar gyfer cyfarfodydd trwy ddarllen y papurau priodol a pharchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth a ddatgelir cyn ac yn ystod cyfarfodydd.**

---

**Rydym yn chwilio am bobl o gefndiroedd gwahanol ac sydd ag ystod o sgiliau a phrofiadau.**

## Mae ein rhestr dymuniadau sgiliau a phrofiad yn cynnwys:

- **Gosod targedau, monitro a gwerthuso perfformiad a phrosiectau**
- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
- **Rheolaeth ariannol**
- **Cefnogaeth a datblygiad cymunedol**
- **Materion cyfreithiol**
- **Codi arian**
- **Recriwtio a rheoli personél gan gynnwys gwybodaeth am ddeddfwriaeth cyflogaeth**
- **Cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau**
- **Marchnata**
- **Cyfrifiaduron a thechnoleg gwybodaeth**
- **Craffu ac archwilio**
- **Addysg ac hyfforddiant**
- **Llywodraethu**
- **Datblygu busnes**
- **Menter gymdeithasol ac entrepreneuriaeth gymdeithasol**
- **Yr iaith Gymraeg**
- **Rhwydweithio**

---

## Beth sydd ynddo i chi? Fel ymddiriedolwr PAVO byddwch yn:

1. **Cael y cyfle i weithio gyda thîm angerddol sydd eisiau helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r sefydliadau a'r bobl maent yn eu cefnogi**
2. **Gallu defnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i gael effaith gadarnhaol ar sector gwirfoddol Powys, tra'n hybu'ch datblygiad proffesiynol**
3. **Helpu i gefnogi a siapio gwaith a chyfeiriad PAVO**
4. **Gweithio gydag ystod o bobl o bob rhan o'r trydydd sector ac ystod eang o randdeiliaid**
5. **Byddwch yn cefnogi tîm PAVO i gyflawni ei ddiben strategol, sef Helpu Sefydliadau; Gwella Bywydau Pobl.**



# Ein Tîm Rheoli Gweithredol PAVO

**Clair Swales**



Prif Weithredwr

**Angela Owen**



Pennaeth Gwasanaethau Mewnol

**Sharon Healey**



Pennaeth Iechyd, Lles a Phartneriaeth

**Michele Muireasgha**



Pennaeth Datblygu'r Trydydd Sector

**Jamie Burt**



Cadeirydd y Bwrdd

**Wendy Beaven**



Ymddiriedolwr

**Myra Francis**



Ymddiriedolwr

**Gary Mitchell**



Ymddiriedolwr

**William Powell**



Ymddiriedolwr

**Peter Swanson**



Ymddiriedolwr

**Trish Buchan**



Ymddiriedolwr

**Dominique Jones**



Ymddiriedolwr

**Margaret Evitts**



Ymddiriedolwr

# Aelodau Bwrdd PAVO

# Proses Ymgeisio am Swydd Ymddiriedolwr ym PAVO

## Rydym yn eich gwahodd i wneud cais i fod yn Ymddiriedolwr i PAVO!

**Os oes gennych y sgiliau, y profiad a'r ymroddiad i gyfrannu at ein cenhadaeth, rydym am glywed gennych. Ymunwch â ni i wneud gwahaniaeth ym Mhowys.**
**Gwnewch gais i fod yn Ymddiriedolwr i PAVO heddiw!**

**Gall ymgeiswyr sydd â diddordeb drefnu trafodaeth anffurfiol gydag Angela Owen, Pennaeth Gwasanaethau Mewnol, neu Clair Swales, Prif Swyddog Gweithredol.**




**Bydd pob cais yn cael ei gydnabod yn brydlon.**

### Cyfle Cyfartal yn PAVO:

- **Ymrwyma PAVO i ddarparu cyfle cyfartal i'r holl weithwyr presennol, posibl ac Aelodau'r Bwrdd. Gwerthfawrogwn amrywiaeth fel sbardun i ganlyniadau gwell, gan greu gweithle mwy cynhwysol lle mae unigolion o gefndiroedd amrywiol yn cydweithio'n effeithiol.**

- **O'r cais cychwynnol i'r cyfweliad, mae cynwysoldeb wrth wraidd ein prosesau. Ein nod yw sicrhau profiad teg, cyfiawn a di-wahaniaethu i'n holl gydweithwyr a rhanddeiliaid.**

**Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'n sefydliad.**
**Pob lwc gyda'ch cais!**

